

# END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU RHYWDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Scroll down for the English version



## Bwletin Gwybodaeth Ionawr 2021

Croeso i fwletin misol ar gyfer Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru. Mae'r bwletin yn amlygu'r holl newyddion a pholisi diweddaraf o Gymru a'r DU sy'n ymwneud â threchu tlodi a gwella symudoledd cymdeithasol.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth at y bwletin, cysylltwch


a [karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk](mailto:karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk)

Os hoffech dderbyn yr e-friffiad yma yn uniongyrchol, cysylltwch a:

[info@childreninwales.org.uk](mailto:info@childreninwales.org.uk)



**Children in Wales**  
**Plant yng Nghymru**





Happy New Year from Children In Wales

Blwyddyn Newydd Dda wrth Plant yng Nghymru



Children in Wales  
Plant yng Nghymru

## 2021 – Blwyddyn Newydd

Roedd 2020 yn flwyddyn heriol i bawb ohonon ni, yn broffesiynol ac yn bersonol. Roedd hefyd yn flwyddyn pan fu newid dramatig ym mywydau miloedd o blant, a phan fu llawer mwy yn profi effeithiau byw mewn tlodi. Er bod goleuni i'w weld ym mhen draw'r twnel, a bod dychwelyd at sefyllfa normal ar y gorwel, mae effaith y pandemig ar blant yn helaeth ac yn hirhoedlog, a bydd hynny'n parhau. Fodd bynnag, fel y gwyddom, roedd lefelau ac effaith tlodi plant yng Nghymru yn annerbyniol cyn COVID, felly dydyn ni ddim am dychwelyd at y 'normal' hwnnw.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda chi eleni a pharhau â'n hymdrechion ar y cyd i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisi, ymchwil ac ymarfer. Blwyddyn Newydd Dda.

## Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn cyhoeddi adroddiad ar gyfer y Cenhedloedd Unedig, yn amlygu'r blaenoriaethau o ran hawliau plant yng Nghymru

Mae Grŵp Monitro CCUHP Cymru wedi rhyddhau adroddiad sydd wedi ceisio nodi'r materion blaenoriaeth sy'n effeithio ar blant yng Nghymru a'r rhwystrau mae plant yn eu hwynebu wrth wireddu eu hawliau. Trwy ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan fwy na 80 o sefydliadau ac unigolion trwy ddigwyddiadau ymgynghori a galwad am dystiolaeth ysgrifenedig, mae'r adroddiad yn cydnabod, er bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, bod pob plentyn, yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed, yn dal i wynebu lefelau aruthrol o anfantais ac anghydraddoldeb, sydd wedi gwaethygu o ganlyniad i'r pandemig.

Mae'r adroddiad, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cenhedloedd Unedig, yn darparu rhestr o gwestiynau ar gyfer Llywodraeth Cymru ar draws 30 maes polisi sy'n effeithio ar blant, gan gynnwys Tlodi Plant.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

## Mae'n bryd cael sector rhentu preifat tecach, yn ôl landlordiaid Cymru

Mae Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl (NRLA) Cymru wedi rhyddhau eu maniffesto ar gyfer yr etholiad sy'n dod, gan esbonio mai dim ond pan fydd y sector rhentu preifat yn cael ei weld fel rhan o'r ateb i'r argyfwng tai y bydd modd i landlordiaid a thenantiaid ffynnu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

---

### Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Cymorth Hunanynysu ar gyfer rhieni a gofalwyr

Mae Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, wedi rhyddhau datganiad ynghylch lansio cynllun taliadau £500 Llywodraeth Cymru fis diwethaf i gynorthwyo pobl y mae'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu wedi gofyn iddyn nhw hunanynysu.

Gallwch ddarllen y datganiad llawn [yma](#).

---

### Sut mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 yn ein helpu i amlygu anghydraddoldeb, flwyddyn yn ddiweddarach

Ar 27 Tachwedd 2019, cyhoeddwyd chweched argraffiad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD).

Mae'r mynegai yn graddio ardaloedd bychain yng Nghymru ar sail sawl math o amddifadedd, fel incwm a thai, ac yn cyfuno'r rheiny'n fesur cyffredinol o amddifadedd lluosog. Gallwn ni ddefnyddio'r mynegai hefyd i archwilio effeithiau gwahaniaethol y feirws ar gymunedau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

---

### Llesiant Cymru: 2020

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar lesiant yng Nghymru. Mae'n helpu i asesu a ydym ni'n gwneud cynnydd yn erbyn y 7 nod llesiant cenedlaethol, yn ogystal â chynnwys sylwadau ynghylch ble mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld newidiadau ers dyfodiad pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Dyma'r 7 nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

---

### Sefydliad Bevan: Ciplun o dlodi yng ngeaaf 2020

Mae effaith drychinebus Covid 19 ar aelwydydd tlotaf Cymru wedi cael ei amlygu gan adroddiad newydd Sefydliad Bevan. Mae data newydd a gasglwyd gan YouGov ar ran Sefydliad Bevan wedi dangos yn glir effaith erchyll Covid 19 ar aelwydydd tlotaf Cymru.

Mae bron chwarter aelwydydd Cymru, 328,000 ohonynt, wedi gweld eu hincwm yn gostwng ers dechrau'r pandemig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

---

## Newyddion o'r Deyrnas Unedig

### Sefydliad Joseph Rowntree: Destitution in the UK 2020

Mae'r astudiaeth hon, y drydedd yn y gyfres Destitution in the UK, yn datgelu bod graddfa a dwysedd y rhai sydd mewn sefyllfa ddiymgeledd yn cynyddu'n gyflym, hyd yn oed cyn lledaeniad COVID-19. Ers 2017 mae llawer mwy o aelwydydd, gan gynnwys teuluoedd â phlant, wedi cael eu gwthio i ymyl y dibyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

---

### Achub y Plant: Bydd mwy nag un o bob tri theulu sydd mewn trafferth yn dibynnu ar barseili bwyd gan elusen y Nadolig yma

Yn ôl arolwg o'r teuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Plant, bydd 37% yn dibynnu ar barseili bwyd gan elusen neu brydau Nadolig gan elusen, tra bydd 21% yn defnyddio rhoddion Nadolig a gyfrannwyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

---

### Dau o bob 5 plentyn yn y Deyrnas Unedig sydd o dan y trothwy tlodi heb fod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Cyn y pandemig, roedd o leiaf 2 o bob 5 plentyn oed ysgol - 1.3miliwn – oedd yn byw o dan drothwy tlodi yn y Deyrnas Unedig yn methu hawlio prydau ysgol am ddim, yn ôl dadansoddiad newydd gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. Mae'r dadansoddiad wedi canfod bod yr holl blant hyn mewn teuluoedd sy'n gweithio am dâl isel, ond nad ydynt yn gymwys oherwydd y meini prawf cymhwysedd llym.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

---

### Bron hanner ein teuluoedd yn cael eu gwthio i ddyled ers dechrau'r pandemig

Mae ymchwil newydd yn dangos bod bron 18 miliwn o bobl, traean o'r boblogaeth, wedi gorfod defnyddio cardiau credyd, gwneud defnydd o'u gorddrafft, neu fenthgy arian gan ffrindiau a theulu ers mis Mawrth.

Mae bron hanner y teuluoedd sydd â phlant wedi gorfod wynebu rhyw fath o ddyled ers dechrau'r pandemig, gan arwain at rybuddion bod perygl i Brydain droi'n genedl sy'n "byw ar gredyd".

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

---

## Information Bulletin January 2021

Welcome to the monthly bulletin for the End Child Poverty Network Cymru. The bulletin includes the latest news and policy from Wales and the UK relating to tackling poverty and improving social mobility.

If you have anything you'd like to contribute to the bulletin, please contact

[karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk](mailto:karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk)

If you would like to receive this e-briefing directly, please

contact: [info@childreninwales.org.uk](mailto:info@childreninwales.org.uk)



Children in Wales  
Plant yng Nghymru



Happy New Year from Children In Wales

Blwyddyn Newydd Dda wrth Plant yng Nghymru



Children in Wales  
Plant yng Nghymru

## 2021 – A New Year

2020 was a challenging year for all of us, both professionally and personally. It was also a year when thousands of children's lives dramatically changed, with many more experiencing the impacts of living in poverty. Whilst there is light at the end of a very long tunnel and a return to normality on the horizon, the impact of the pandemic on children is, and will continue to be, extensive and prolonged. However, as we know, the levels and impact of child poverty in Wales, pre-COVID were unacceptable and this 'normal' is not a place we want to return to.

We look forward to working with you this year and continuing our combined efforts to influence legislation, policy, research and practice. Happy New Year.

---

## The Wales UNCRC Monitoring Group publish report for the United Nations, highlighting children's rights priorities in Wales

The Wales UNCRC Monitoring Group have released a report which has sought to identify the priority issues impacting on children in Wales and the barriers they face in realising their rights. Drawing on evidence received from over 80 organisations and individuals through consultation events and a call for written evidence, the report acknowledges that whilst progress has been made in some areas, all children, particularly those most vulnerable, continue to face huge levels of disadvantage and inequalities, which have been exacerbated as a consequence of the pandemic.

The report, which will be submitted to the United Nations, provides a list of questions for the Welsh Government across 30 policy areas affecting children, including Child Poverty.

Find out more [here](#).

---

## Time for a fairer private rented sector, say Welsh landlords

The National Residential Landlords Association (NRLA) Wales released its manifesto for the forthcoming election, explaining that only when the private rented sector (PRS) is regarded as part of the solution to the housing crisis can landlords and tenants prosper.

Find out more [here](#).

---

## Written Statement: Self-Isolation Support Scheme for parents and carers

Julie James, Minister for Housing and Local Government has released a statement on the launch of the Welsh Government £500 payment scheme last month to support people who have been asked to self-isolate by the Test, Trace Protect service.

Read the full statement [here](#).

---

## How WIMD 2019 helps us highlight inequality, one year on

On 27 November 2019, the sixth edition of the Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) was published.

The index ranks small areas in Wales on several types of deprivation, like income and housing, and combines these into an overall measure of multiple deprivation. We can also use the index to examine the differential impacts of the virus on communities.

Find out more [here](#).

---

This report provides an update on wellbeing in Wales. It helps to assess whether we are making progress against the 7 national wellbeing goals as well as commentary on where Welsh Government expect to see changes since the onset of the coronavirus (COVID-19) pandemic.

The 7 wellbeing goals are:

- A prosperous Wales
- A resilient Wales
- A healthier Wales
- A more equal Wales
- A Wales of cohesive communities
- A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language
- A globally responsible Wales

Find out more [here](#).

### Bevan Foundation: A snapshot of poverty in Winter 2020

New data gathered by YouGov on behalf of the Bevan Foundation has laid bare the devastating impact that Covid-19 is having on Wales' poorest households. Nearly a quarter of Welsh households have seen their incomes fall since the start of the pandemic.

Find out more [here](#).

## News from the UK

### Joseph Rowntree Foundation: Destitution in the UK 2020

This study, the third in the *Destitution in the UK* series, reveals that even before the COVID-19 outbreak destitution was rapidly growing in scale and intensity. Since 2017 many more households, including families with children, have been pushed to the brink.

Find out more [here](#).

### Save the Children: More than a third of struggling families will rely on charity food parcels this Christmas

Survey of families on Universal Credit and Child Tax Credit finds 37% will rely on charity food parcels or charity Christmas meals, while 21% will use donated Christmas gifts.

Find out more [here](#).

### Two in five UK children under the poverty line are not eligible for

Prior to the pandemic, at least two in five school-age children - 1.3million - who lived below the UK's poverty line were not entitled to free school meals, new analysis from Child Poverty Action Group (CPAG) shows. All of these children are in families in low paid work but do not qualify because of stringent eligibility criteria, the analysis finds.

Find out more [here](#).

---

### Nearly half of families forced into debt since start of pandemic

New research shows that almost 18 million people, a third of the population, have had to use credit cards, go into their overdraft or borrow from friends and family since March.

Nearly half of families with children have been forced into some form of debt since the start of the pandemic, prompting warnings that Britain risks becoming a nation "surviving on credit".

Find out more [here](#).

---

[www.childreninwales.org.uk](http://www.childreninwales.org.uk)

Visit our website